**Gwybodaeth Ategol**

Yn gynharach eleni, dedfrydwyd aelodau o gang o bedoffiliaid i gyfnodau hir o garchar yn Llys y Goron Abertawe. Cartrefwyd aelodau'r gang hon yng Nghydweli gan Grŵp Gwalia, sef darparwr tai cymdeithasol. Roedd aelodau'r gang hon yn dod o Lundain yn wreiddiol ac roedd ganddynt ddedfrydau blaenorol, felly pam y cawsant eu lleoli mewn tref fach yng Nghymru?

Yn anffodus, mae'r achos hwn yng Nghydweli yn un o nifer o enghreifftiau lle mae troseddwyr cydnabyddus a phobl annymunol eraill wedi cael eu cartrefu yng Nghymru. Mae'r achosion hyn wedi arwain at ddrwgdybiaeth gynyddol bod Cymru'n cael ei defnyddio fel tomen gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn Lloegr. Yn ogystal, mae cyrff yng Nghymru wedi helpu'r sefyllfa hon i ddatblygu drwy dderbyn taliadau premiwm yn gyfnewid am gartrefu pobl o'r fath.

Gan fod darparwyr tai cymdeithasol yn cael eu cofrestru a'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, siawns ei bod yn bryd adolygu rôl, cyfrifoldebau a threfniadau ariannu darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru.